FCA FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

# Gwiriwr Cwmnïau ‘Firm Checker’ FCA

Pecyn Ymgyrch



# Cynnwys


1. Cefndir ........ 3
2. Cynulleidfa darged ........ 5
3. Cysyniad creadigol ........ 7
4. Cefnogi'r ymgyrch ........ 9
5. Canllaw ........ 11
6. Copi'r ymgyrch ........ 13
7. Postiadau cyfryngau cymdeithasol ........ 15




# 1.

# Cefndir



## Beth

Mae'r Gwiriwr Cwmnïau yn helpu defnyddwyr i ganfod a yw cwmni wedi'i awdurdodi i ddarparu'r gwasanaethau y maen nhw ei eisiau. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o'r Gwiriwr Cwmnïau a hybu ei ddefnydd ymhlith cynulleidfaoedd sy'n debyg o fod mewn perygl, gan annog defnyddwyr i 'wirio' fel gweithred ddiofyn.

## Pryd

Bydd yr ymgyrch yn cael ei lansio ar 14 Medi 2026. Mae'r ymgyrch hon wedi'i hamserlennu i redeg mewn cyfnodau dros 5 mlynedd, gan gefnogi strategaeth bresennol yr FCA.

## Sut

Bydd yr ymgyrch yn cael ei rhedeg ar y radio, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion teledu, hysbysebu ar-lein a thrwy bartneriaethau.

# 2.

# Cynulleidfa darged



# Pwy ydyn nhw?

**Oedolion 18+** sy'n debygol o wneud penderfyniad buddsoddi (sy'n cynnwys gweithgaredd wedi ei reoleiddio)



# 3.

# Cysyniad creadigol



Rydym wedi ymchwilio i'r cysyniad creadigol gyda'r gynulleidfa darged. Roedd yn cael ei weld fel un ddoniol ac yn cael effaith ar unwaith. Roedd gan y cysyniad hirhoedledd, gyda'r llinell 'seal the deal' yn aros yng nghof y gynulleidfa darged. Llwyddodd i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng neges ddifrifol ag un ddoniol a chofiadwy. Gyda hynny mewn golwg rydym yn cydnabod nad yw'r delweddau a'r geiriau yn gweithio yn yr un modd yn y Gymraeg. Rydym felly wedi datblygu neges amgen ar gyfer postiadau Cymraeg sy'n cynnwys galwad i weithredu. Gallwch ddefnyddio hwn ochr yn ochr â'r asedau sydd wedi eu datblygu.

# 4.

# Cefnogi'r ymgyrch



Fel partner, mae eich cefnogaeth yn bwysig i ni. Felly, rydym wedi creu amrywiaeth o adnoddau i'w gwneud mor hawdd â phosib i chi gymryd rhan yn yr ymgyrch ac i'n helpu ni i ledaenu'r neges i'ch staff, eich cleientiaid a'ch cwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Copi'r ymgyrch
- Postiadau cyfryngau cymdeithasol

Byddwch yn gallu lawrlwytho'r adnoddau o'r dolenni yn y pecyn hwn. Rhowch help i ni annog defnyddwyr i ddefnyddio'r Gwiriwr Cwmnïau a'u helpu nhw i osgoi sgamiau.

# 5.

## Canllaw



1. Rhannwch y postiadau ar sianeli X, Instagram a LinkedIn yr FCA.
2. Os ydych chi'n ysgrifennu eich postiadau eich hun, cofiwch gynnwys yr alwad i weithredu: cer i wirio cyn cytuno.
3. Cysylltwch bob amser â'r dudalen Gwiriwr cwmnïau FCA, sy'n cynnwys y gwiriwr cwmnïau.
4. Mae modd defnyddio'r un copi ar gyfer pob postiad ac nid oes angen cymeradwyaeth gan yr FCA ar gyfer copi cyfryngau cymdeithasol partneriaid

# 6.

# Copi'r ymgyrch



# Diweddaru gwefan

Diweddarwch eich gwefan i gysylltu â Gwiriwr Cwmnïau FCA yn hytrach na'r gofrestr ar unrhyw dudalennau ar gyfer defnyddwyr. Dyma eiriad rydym yn ei awgrymu i'w ddefnyddio ar wefannau ac mewn cylchlythyrau/e-byst:

*P'un a ydych yn ystyried cyfle buddsoddi, pensiwn, benthyciad neu wasanaeth ariannol arall, defnyddiwch Gwiriwr Cwmnïau yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i wirio os yw'r cwmni wedi'i awdurdodi ac i'ch helpu chi i osgoi sgam. Dylech hefyd wirio bod y manylion cyswllt yn cyfateb i'r rhai sydd wedi eu rhestru ar y Gwiriwr Cwmnïau i osgoi sgamwyr sy'n esgus bod yn gwmni dilys.*

*Mae defnyddio cwmni awdurdodedig yn dod â manteision eraill, gan fod rhaid iddynt fodloni safonau'r FCA a dilyn rheolau'r FCA. Mae hyn yn golygu y gallwch gyflwyno cwyn i Wasanaeth Ombwdsmon Ariannol ac mae'n fwy tebygol y byddwch yn elwa ar yr amddiffyniad sy'n cael ei gynnig gan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol. Mae'r Gwiriwr Cwmnïau hefyd yn tynnu sylw at gwmnïau y mae'r FCA yn gwybod sy'n gweithredu heb ganiatâd, fel eich bod yn gwybod pa rai i'w hosgoi.*

# 7.

# Postiadau cyfryngau cymdeithasol



# Ased 1

LinkedIn (1200x627px)

LAWRLWYTHO ASED



# Ased 2

Instagram (1080x1350px)

LAWRLWYTHO ASED



# Ased 3

X (1080x1080px)

LAWRLWYTHO ASED



## Copi byr:

*Os ydych yn ystyried buddsoddiad, cyfle pensiwn, benthyciad neu wasanaeth ariannol arall, defnyddiwch [tag] Gwiriwr Cwmnïau FCA i wirio a yw'r cwmni wedi'i awdurdodi i'ch helpu chi i osgoi sgam.*

**Ewch i:** fca.org.uk/cy/consumers/ynglyn-gwiriwr-cwmniau-fca

## Copi hir:

*Os ydych yn ystyried buddsoddiad, cyfle pensiwn, benthyciad neu wasanaeth ariannol arall, defnyddiwch [tag] Gwiriwr Cwmnïau yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i gadarnhau bod y cwmni wedi'i awdurdodi i'ch helpu chi i osgoi sgam. Dylech hefyd wirio bod y manylion cyswllt yn cyfateb i'r rhai ar Firm Checker i osgoi sgamwyr sy'n esgus bod yn gwmni dilys.*

**Ewch i:** fca.org.uk/cy/consumers/ynglyn-gwiriwr-cwmniau-fca

**Hashtags:** #FirmChecker #FCAFirmChecker

Gallwch hefyd rannu postiadau'r FCA ar ôl iddynt fynd yn fyw ar LinkedIn, Instagram ac X – **cadwch lygaid ar ein sianeli i ailbostio.**

# Diolch!

FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

London | Edinburgh | Leeds

www.fca.org.uk